
Senedd Cymru
**Ymweld a Dysgu**

# Eich Cynrychioli Chi:

## Llyfr Gweithgareddau



Rhagor o wybodaeth:
**senedd.cymru**

# Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl.

Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**© Hawlfraint Comisiwn Senedd 2026**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neugyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.





# Y Senedd

## Rydym yn gwneud cyfreithiau, pennu trethi, a goruchwylio gwaith Llywodraeth Cymru.

Dysgwch fwy am y Senedd, ein rôl wrth eich cynrychioli chi, a sut rydym yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Enw fy etholaeth yw:**

______

______

**Enw fy Aelodau o'r Senedd etholaethol yw:**

1. ______
2. ______
3. ______
4. ______
5. ______
6. ______

**Amlinellwch brif rolau Aelod o'r Senedd:**

______

**Amlinellwch rai gwahaniaethau allweddol rhwng Senedd y DU a Senedd Cymru:**

| Senedd Cymru | Senedd y DU |
| --- | --- |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

# Pwerau'r Senedd

**Gall y Senedd basio Deddfau ar unrhyw faterion nas cedwir gan Senedd y DU o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017).**

Mae'r rhestr isod yn dangos rhai meysydd o fywyd yng Nghymru - pwy ydych chi'n meddwl sy'n gyfrifol am basio Deddfau ar y materion hyn:

**Aelodau o'r Senedd** neu **Aelodau o Senedd y DU**?

Rhowch groes yn y cylch i ddangos pwy rydych chi'n meddwl sy'n edrych ar bob maes.

| Meysydd bywyd | Senedd Cymru | Senedd y DU |
|---|---|---|
| Bysiau | ○ | ○ |
| Carchardai | ○ | ○ |
| Trydan | ○ | ○ |
| Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru | ○ | ○ |
| Cydnabod Rhywedd | ○ | ○ |
| Awtistiaeth | ○ | ○ |
| Caethwasiaeth Fodern | ○ | ○ |



**Eich Cynrychioli Chi:** Llyfr Gweithgareddau



| Meysydd bywyd | Senedd Cymru | Senedd y DU |
|---|---|---|
| Elusennau | ○ | ○ |
| Ail gartrefi | ○ | ○ |
| Cŵn peryglus | ○ | ○ |
| S4C | ○ | ○ |
| Diogelwch Caeau Chwaraeon | ○ | ○ |
| Trwyddedu Tacsis | ○ | ○ |
| Diogelwch y rhyngrwyd mewn ysgolion | ○ | ○ |

**A wyddost ti?**

Mae rôl Llywydd y Senedd yn adlewyrchu rolau Llefarwyr a Llywyddion mewn seneddau ledled y byd.

Mae'r Llywydd bob amser yn wleidyddol ddiduedd.

# Rolau a Chyfrifoldebau

**Beth yw rolau'r Llywydd?**

**Beth yw rolau'r Prif Weinidog?**

**Sut y bydd y Senedd yn craffu ar Lywodraeth Cymru?**





**Mae Llywodraeth Cymru yn rhedeg Cymru**
Mae yna Gweinidogion a Dirprwy Weinidogion yn Llywodraeth Cymru. Maent yn awgrymu mwyafrif y deddfau newydd ac maent yn gyfrifol am adrannau a gwariant y llywodraeth.

Darganfyddwch pa Weinidogion a Dirprwy Weinidogion sy'n gyfrifol am y meysydd bywyd hyn:

**Diogelwch tomenni pyllau glo:**

**Prifysgolion Cymru:**

**Chwaraeon:**

**Trechu digartrefedd:**

**Teithio Llesol:**

**LCA (Lwfans Cynhaliaeth Addysg):**

**A wyddost ti?**

Mae aelodau'r Senedd yn gwirio gwaith Gweinidogion a Dirprwy Weinidogion yn Llywodraeth Cymru.

Mae aelodau'r Senedd yn craffu ar bob awgrym treth neu gyfraith newydd i wneud yn siŵr ei fod yn deg.

# Y Senedd newydd

## Llenwch y bylchau:

| Newidiadau yn y Senedd | Etholiad 2021 | Etholiad 2026 |
|---|---|---|
| **Oedran pleidleisio** | | |
| **Dull pleidleisio** | **Cyntaf i'r Felin** | |
| **Aelodau o'r Senedd** | | **96** |
| **Nifer yr etholaethau** | **40** | |
| **Nifer yr Aelodau ym mhob etholaeth** | | |
| **Uchafswm nifer yr Gweinidogion a Dirprwy Weinidogion yn Llywodraeth Cymru** | **14** | |
| **Etholiadau bob … mlynedd** | **5** | |
| **Nifer yr Aelodau o'r Senedd a all graffu ar Lywodraeth Cymru** | **44** | |



**Eich Cynrychioli Chi:** Llyfr Gweithgareddau

Amlinellwch fanteision ac anfanteision y newidiadau i'r Senedd o fis Mai 2026:

**Manteision:**

**Anfanteision:**

**A wyddost ti?**

Cafodd pobl ifanc 16 a 17 mlwydd oed bleidleisio, am y tro cyntaf, yn etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021.

# Deddfu yng Nghymru

Cyfraith ddrafft yw Bil. Ar ôl i'r Senedd ystyried Bil a'i basio, ac ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol gan y Frenhines, mae'n dod yn 'Ddeddf y Senedd'.

Parwch y 'cyfreithiau' canlynol gyda'r flwyddyn gywir:

2011

2002

2007

2001

2022

2013

2020

2007

**Sgorio Hylendid Bwyd:**

**Rhoi Terfyn ar Gosb Gorfforol i Blant:**

**Sefydlu rôl Comisiynydd Plant Cymru:**

**Tocyn bws am ddim i bob pensiynwr:**

**Gwahardd ysmygu mewn mannau cyhoeddus:**

**Presgripsiynau am ddim i bawb:**

**Talu am fag plastig:**

**Gostwng yr oedran pleidleisio 16:**





**Gwaith ymchwil ar-lein:**
Ymchwiliwch i 1 enghraifft bresennol o'r canlynol Bil y Llywodraeth yng Nghymru.


**Beth yw enw'r Bil a beth ydych wedi'i ddod o hyd iddo?**

**Gwaith ymchwil ar-lein:**
Ymchwiliwch i 1 enghraifft bresennol o'r canlynol Bil Aelod yng Nghymru.

**Beth yw enw'r Bil a beth ydych wedi'i ddod o hyd iddo?**

**Gwaith ymchwil ar-lein:**
Ymchwiliwch i 1 enghraifft bresennol o'r canlynol 'Deddf y Senedd' yng Nghymru.

**Beth yw enw'r Ddeddf a beth ydych chi wedi'i ddarganfod amdano?**








# Dy bleidlais di, dy lais di

Enw'r system bleidleisio ar gyfer etholiadau'r Senedd yw'r 'system rhestr gyfrannol gaeedig'. Mae hyn yn golygu y bydd nifer y seddi y bydd plaid neu ymgeisydd annibynnol yn eu hennill yn adlewyrchu'n agosach ganran y pleidleisiau y maen nhw'n cael.

Bydd pleidiau gwleidyddol yn rhestru hyd at wyth ymgeisydd ar gyfer pob etholaeth. Gall ymgeiswyr annibynnol, hefyd, sefyll etholiad. Fe fyddwch yn pleidleisio dros un blaid, neu un ymgeisydd annibynnol.

## Sut y caiff Aelodau eu hethol?

Mae cyfrif y pleidleisiau yn digwydd mewn rowndiau, gyda'r blaid gyda'r cyfanswm uchaf ym mhob rownd yn ennill y sedd. Beth am i ni ddefnyddio'r tabl isod i edrych ar enghraifft o hyn a gweld sut mae'n newid ym mhob rownd.

| | Plaid A | Plaid B | Plaid C | Plaid D | Ymgeisydd annibynnol |
|---|---|---|---|---|---|
| **Pleidleisiau** | 300 | 210 | 120 | 30 | 10 |

### Rownd 1

Fel y blaid â'r nifer fwyaf o bleidleisiau, Plaid A fyddai'n cipio'r sedd gyntaf. Byddai'r ymgeisydd cyntaf ar eu rhestr yn cael ei ethol.

| | Plaid A | Plaid B | Plaid C | Plaid D | Ymgeisydd annibynnol |
|---|---|---|---|---|---|
| **Pleidleisiau** | 300 | 210 | 120 | 30 | 10 |
| **Rownd 1** | **300** | 210 | 120 | 30 | 10 |

Byddai pleidleisiau Plaid A wedyn yn cael eu rhannu â dau ar gyfer y rownd nesaf.
**Enghraifft: Plaid A: 300/(1+1 sedd) = 150**

## Rownd 2

Yn y rownd nesaf, Plaid B sydd bellach â'r nifer fwyaf o bleidleisiau, felly mae'n ennill sedd. Felly byddai'r ymgeisydd cyntaf ar ei rhestr yn cael ei ethol.

| | Plaid A | Plaid B | Plaid C | Plaid D | Ymgeisydd annibynnol |
|---|---|---|---|---|---|
| **Pleidleisiau** | 300 | 210 | 120 | 30 | 10 |
| **Rownd 1** | **300** | 210 | 120 | 30 | 10 |
| **Rownd 2** | 150 | **210** | 120 | 30 | 10 |

Byddai pleidleisiau Plaid B wedyn yn cael eu rhannu â dau ar gyfer y rownd nesaf. **Enghraifft: Plaid B: 210/(1+1 sedd) = 105**

## Rownd 3

Yn y drydedd rownd, Plaid A sydd â'r nifer fwyaf uchaf o bleidleisiau eto ac mae'n ennill ail sedd. Byddai'r ail berson ar restr y blaid hon nawr yn cael ei ethol.

| | Plaid A | Plaid B | Plaid C | Plaid D | Ymgeisydd annibynnol |
|---|---|---|---|---|---|
| **Pleidleisiau** | 300 | 210 | 120 | 30 | 10 |
| **Rownd 1** | **300** | 210 | 120 | 30 | 10 |
| **Rownd 2** | 150 | **210** | 120 | 30 | 10 |
| **Rownd 3** | **150** | 105 | 120 | 30 | 10 |

Mae cyfanswm pleidleisiau gwreiddiol Plaid A (300) bellach wedi'i rannu â thri (1+2 sedd y mae eisoes wedi'u hennill).
**Enghraifft: Plaid A: 300/(1+2 sedd) = 100**

Mae hyn yn parhau nes caiff yr holl seddi eu llenwi. Yn yr enghraifft hon:

- Bydd Plaid A yn ennill 3 sedd
- Bydd Plaid B yn ennill 2 sedd
- Bydd Plaid C yn ennill 1 sedd.



**Eich Cynrychioli Chi:** Llyfr Gweithgareddau

| | Plaid A | Plaid B | Plaid C | Plaid D | Ymgeisydd annibynnol |
|---|---|---|---|---|---|
| **Pleidleisiau** | 300 | 210 | 120 | 30 | 10 |
| **Rownd 1** | **300** | 210 | 120 | 30 | 10 |
| **Rownd 2** | 150 | **210** | 120 | 30 | 10 |
| **Rownd 3** | **150** | 105 | 120 | 30 | 10 |
| **Rownd 4** | 100 | 105 | **120** | 30 | 10 |
| **Rownd 5** | 100 | **105** | 60 | 30 | 10 |
| **Rownd 6** | **100** | 70 | 60 | 30 | 10 |
| **Etholwyd:** | **3** | **2** | **1** | **-** | **-** |

Mae'r system yn sicrhau bod nifer y seddi y mae pob plaid neu ymgeisydd annibynnol yn eu hennill yn nes at ganran y pleidleisiau a gânt.

**1. Pa % o'r bleidlais enillodd Plaid A?**

**2. Pa % o'r seddi enillodd Plaid A?**

**3. Pa % o'r bleidlais enillodd Plaid B?**

**4. Pa % o'r seddi enillodd Plaid B?**

**5. Pa % o'r bleidlais enillodd Plaid C?**

**6. Pa % o'r seddi enillodd Plaid C?**

**A wyddost ti?**

Mae Pwyllgor Deisebau'r Senedd yn edrych ar ymgyrchoedd a syniadau sy'n cael eu hanfon ato gan unigolion a grwpiau yng Nghymru.

Mae modd llofnodi'r deisebau hyn neu gyflwyno rhai dy hun drwy chwilio am Ddeisebau ar wefan **senedd.cymru**.

# Pwyllgorau'r Senedd

**Amlinellwch beth yw prif gyfrifoldebau a gwaith pwyllgorau'r Senedd.**

**Beth ydych chi'n meddwl sy'n gwneud pwyllgor effeithiol a dylanwadol?**



**Eich Cynrychioli Chi:** Llyfr Gweithgareddau

# Astudiaeth achos

Pwy fyddech chi'n eu gwahodd i roi tystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliadau, deisebau a chraffu ar ddeddfwriaeth ddrafft canlynol?

**Ymchwiliad: Rhwystrau i gyflogaeth a wynebir gan bobl anabl:**

**Ymchwiliad: Absenoldeb disgyblion mewn ysgolion:**

**Deiseb: Gwahardd ffonau clyfar ym mhob ysgol yng Nghymru (gydag esemptiadau ar gyfer amgylchiadau eithriadol):**

**Deddfwriaeth ddrafft: Bil Plastigau Untro:**

**A wyddost ti?**

Fel rhan o'u gwaith mewn pwyllgorau, mae Aelodau'r Senedd yn ymgynghori ag arbenigwyr a thystion arbenigol.

Maent yn gwneud hynny i geisio barn gwahanol sefydliadau ac aelodau o'r cyhoedd, i helpu gyda'u gwaith ymchwilio neu i lunio deddf newydd.

# Geirfa

## Rhestr termau seneddol

### Datganoli

Datganoli yw trosglwyddo neu ddirprwyo pŵer i lefel fwy lleol. Yng Nghymru, mae pwerau deddfu wedi'u datganoli o Senedd y DU i Senedd Cymru.

### Bil

Cyfraith arfaethedig yw Bil. Os bydd y Senedd yn cymeradwyo'r cynigion, yna bydd y Bil yn barod i ddod yn Ddeddf.

### Deddf y Senedd

Os bydd y Senedd yn cymeradwyo cynigion ar gyfer cyfraith neu fil arfaethedig, mae'n barod i ddod yn Ddeddf. Cyn y gall Bil ddod yn Ddeddf y Senedd, rhaid i'r Brenin ei gymeradwyo. Enw'r broses hon yw Cydsyniad Brenhinol. Cyfeirir yn aml at ddeddfau fel deddfwriaeth sylfaenol.

### Craffu

Pan fydd Senedd Cymru yn edrych yn fanwl ar waith Llywodraeth Cymru, dywedir ei bod yn cynnal Gwaith 'craffu'.

### Pwyllgor

Grwpiau bach o Aelodau o wahanol bleidiau gwleidyddol yw pwyllgorau. Bydd y pwyllgorau'n craffu ar ddeddfwriaeth arfaethedig (Biliau) a pholisïau Llywodraeth Cymru, a byddan nhw'n gwneud argymhellion i'w gwella.



**Eich Cynrychioli Chi:** Llyfr Gweithgareddau

### Deiseb

Gall y cyhoedd ddefnyddio y broses ddeisebau i ddwyn sylw'r Senedd at faterion penodol. Gall unigolion neu gyrff gyflwyno deisebau yn ymwneud ag unrhyw bwnc o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

### Llywydd

Y Llywydd sy'n cadeirio'r Cyfarfod Llawn, gan aros yn wleidyddol ddiduedd bob amser. Mae rôl Llywydd y Senedd yn adlewyrchu rolau Llefarwyr a Llywyddion mewn seneddau ledled y byd.

### Prif Weinidog Cymru

Y Prif Weinidog yw arweinydd Llywodraeth Cymru ac mae'n bennaf gyfrifol am lunio a datblygu polisïau Llywodraeth Cymru, yn ogystal â chynrychioli Cymru gartref a thramor.

### Gweinidogion a Dirprwy Weinidogion

Mae Gweinidogion a Dirprwy Weinidogion Cymru yn cael eu dewis gan y Prif Weinidog ar ôl etholiad. Mae pob un ohonynt yn gyfrifol am faes allweddol fel addysg, iechyd neu drafnidiaeth.